| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **11 CHWEFROR 2009** |
| **PWNC** | **LWFANSAU I AELODAU** |
| **PWRPAS** | **EGLURO NEWIDIADAU I'R CYNLLUN LWFANSAU SY'N EFFEITHIO AR AELODAU CYFETHOLEDIG A DETHOL CYNRYCHIOLWYR I GYFARFOD AELODAU O'R PANEL ANNIBYNNOL AR LWFANSAU** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

1. Yn 2007 cyflwynwyd rheoliadau newydd ar lwfansau aelodau. Roedd y rheoliadau yn sefydlu Panel Annibynnol i Gymru ar gydnabyddiaeth aelodau. Gwaith y Panel ydi gwneud argymhellion i awdurdodau lleol Cymru ar uchafsymiau lwfansau aelodau.

2. Yn ogystal â sefydlu'r Panel roedd y rheoliadau hefyd yn cyflwyno lwfans newydd i aelodau cyfetholedig sydd hefo pleidlais. Mae hyn yn effeithio ar aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Safonau ynghyd â chynrychiolwyr eglwysig a rhieni-lywodraethwyr ar y pwyllgor craffu sy'n ymdrin â materion addysg.

3. Cyhoeddodd y Panel ei adroddiad cyntaf yn argymell lefelau lwfansau yn Awst 2008 a daeth y rheoliadau newydd i rym 4 mis wedi hynny sef diwedd Rhagfyr 2008. O'r dyddiad hwnnw ymlaen diddymwyd yr hawl i lwfans colled ariannol a rhoddwyd yn ei le y lwfans newydd i aelodau cyfetholedig.

4. Penderfynodd y Cyngor Llawn fis Rhagfyr dderbyn argymhellion y Panel Annibynnol a gosod y lwfans i aelodau cyfetholedig ar ddwy lefel sef £1,450 i'r rhai sy'n cadeirio pwyllgor a £760 i eraill.

5. Rhan o waith y Panel yw cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r fframwaith ar gyfer lwfansau aelodau. Maent yn bwriadu ymgymryd â'r gwaith ymchwil trwy ymweld â phob prif gyngor yn ystod y misoedd nesaf i gasglu barn gan aelodau am fwriad a manteision lwfansau. Byddant yn ystyried a ddylid cael gwared ar y cysyniad o "lwfansau" a "threuliau" a chyflwyno yn eu lle gyflog ar gyfer swyddi rhan-amser a llawn-amser aelodau cyffredin ac arweinyddion, ynghyd â disgrifiadau swydd, sustemau arfarnu perfformiad, a chyfleoedd datblygu a hyfforddi priodol.

6. Bydd dau aelod o'r Panel yn ymweld â Gwynedd ar 6 Mai 2009. Maent wedi gofyn am gael cyfarfod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a detholiad o aelodau annibynnol eraill.

7. ARGYMHELLIAD: Bod y Pwyllgor yn
   a) nodi'r newidiadau i'r gyfundrefn lwfansau ac effaith hyn ar aelodau cyfetholedig
   b) dethol aelodau cyfetholedig i gyfarfod aelodau o Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar 6 Mai 2009